

**Hysbysiad o benderfyniad rheolaeth
prisiau terfynol: atodiad cwmni-benodol –
Dŵr Cymru**

A1 Penderfyniad Terfynol – yn gryno

Mae'r bennod hon yn rhoi crynodeb o'r penderfyniad terfynol ar gyfer Dŵr Cymru. Mae'n crynhoi beth fydd y penderfyniad terfynol yn ei olygu i gwsmeriaid, o ran y biliau cyfartalog y byddant yn eu talu a'r canlyniadau y bydd y cwmni yn eu cyflawni am hynny. Ar gyfer y cwmni, mae'n cwmpasu'r costau a'r refeniw a ganiateir iddo, yr enillion ar ecwiti rheoleiddiol a chymarebau arianiadwyedd. Rydym hefyd yn crynhoi'r ymyriadau a wnaed gennym i gynllun diwygiedig y cwmni er mwyn diogelu buddiannau cwsmeriaid.


Bil preswyl cyfartalog ar y cyd(£)

Mae'r siart isod yn dangos y biliau cyfartalog a gynigir yng nghynllun mis Rhagfyr y cwmni, y biliau cyfartalog yn ein penderfyniad terfynol a lefel y biliau presennol (2014-15). Dangosir pob bil heb effaith chwyddiant ac maent yn ddangosol gan y bydd biliau terfynol yn dibynnu ar y twf yn nifer y cwsmeriaid, newidiadau yn eu defnydd a'r taliadau penodol y bydd y cwmni'n eu gosod bob blwyddyn o fewn y rheolaethau prisiau cyffredinol yr ydym wedi eu pennu.

Golyga ein penderfyniadau terfynol y bydd biliau cyfartalog yn £396 yn 2019-20, sydd 5% yn is na lefelau'r biliau cyfartalog presennol (sef £416).

Mae'r gwahaniaeth rhwng cynllun mis Rhagfyr y cwmni a'n penderfyniad terfynol yn ganlyniad i'r cwmni'n derbyn ein canllaw risg a gwobr, diwygiadau eraill i'w gynllun a'r ymyriadau yr ydym wedi eu gwneud yn ei gynllun. Mae hyn yn cynrychioli arbediad cronnos o £19 i'r cwsmer cyffredin dros y cyfnod 2015-20.

Ffigur A1.1 Biliau cyfartalog



Bil

Nodyn: Mae'r biliau cymharol o 'gynllun Rhagfyr y cwmni' wedi eu seilio ar y data a gyflwynwyd yn ei gynllun busnes ond a ragfynegydd gan ddefnyddio ein model ariannol, gan sicrhau cysondeb â rhagfynegiad y penderfyniad terfynol. O ganlyniad, efallai na fydd biliau arfaethedig y cwmni a ddangosir uchod o reidrwydd yr un â'r rhai hynny a ddisgrifir yn y cynllun busnes diwygiedig.

Y canlyniadau y gwnaeth Dŵr Cymru ymrwmo iddynt

Mae Dŵr Cymru wedi ymrwmo i gyflawni canlyniadau sy'n adlewyrchu barn ei gwsmeriaid. Cefnogir y rhain gan 28 ymrwymiad cysylltiedig â pherfformiad sy'n nodi lefel perfformiad ymrwymedig y cwmni o dan bob canlyniad. Ar gyfer 15 o'r ymrwymadau perfformiad hyn mae'r cwmni'n atebol i gymhelliannau cyflawni canlyniadau (ODIau) ariannol cysylltiedig lle y bydd yn derbyn cosb am berfformiad gwaeth na'i ymrwymadau, ond gall ennill gwobr am berfformiad gwell na'i ymrwymadau yn ystod y cyfnod rhwng 2015 a 2020.

Mae'r tabl isod yn nodi canlyniadau Dŵr Cymru. Mae'r canlyniadau hyn yn adlewyrchu blaenoriaethau cwsmeriaid a nodwyd mewn ymchwil ac ymgysylltiad â'r grŵp her cwsmeriaid. Rydym wedi cynnal asesiad cymharol o ganlyniadau lle bo'n bosibl gwneud cymariaethau ar draws y sector a, lle bo angen hynny, rydym wedi ymyrryd i herio cwmnïau i gyflawni lefel perfformiad chwarter uchaf. Nodir manylion y mathau o gymhelliannau a lefel yr ymrwymadau perfformiad cysylltiedig â'r canlyniadau hyn yn atodiad 4.

Dŵr cyfanwerthol	Dŵr gwastraff cyfanwerthol
Dŵr yfed diogel	Diogelu ein hamgylchedd
Diogelu ein hamgylchedd	Ymateb i newid hinsawdd
Ymateb i newid hinsawdd	Gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol
Gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol	Prisiau fforddiadwy
Prisiau fforddiadwy	Stiwardiaeth asedau
Stiwardiaeth asedau	

Manwerthol preswyl	Manwerthol dibreswyl
Gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol	Gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol
Prisiau fforddiadwy	Prisiau fforddiadwy

Costau a refeniw a ganiateir ar gyfer Dŵr Cymru

Mae'r tabl isod yn dangos y perfformiad cyfanswm gwariant (totex) cyfanwerthol yr ydym wedi ei ganiatáu dros y cyfnod rhwng 2015 a 2020. Mae'r penderfyniad terfynol yn caniatáu Dŵr Cymru i dderbyn refeniw o £3,343 miliwn. Mae hyn yn cyfuno refeniw a ganiateir ar gyfer y rheolaethau cyfanwerthol a manwerthol preswyl. Ar gyfer manwerthol dibreswyl rydym hefyd wedi gosod rheolaethau refeniw cyfartalog i bob cwsmer ar gyfer pob math o gwsmer a gynigir gan y cwmni. Mae'r refeniw dibreswyl gwerth £44.1 miliwn a ddangosir yn y tabl isod yn ddangosol gan nad yw'n tybio unrhyw enillion neu golledion o gystadleuaeth neu'r cwmni'n codi tâl ar gwsmeriaid sy'n wahanol i'r tariffau diodyn perthnasol.

O dan ein hegwyddor 'cywerthedd triniaeth' mae'r cwmni'n atebol i'n gostyngiad yn yr enillion a ganiateir i adlewyrchu'r lleihad yng nghost dyledion newydd ers mis Ionawr. Mae'r cwmni hefyd yn atebol i newidiadau yn ein lwfansau cost ar gyfer cyfanwerthu a manwerthu. Adlewyrchir newidiadau yn y meysydd hyn yn y tabl isod.

Cyfanwerthu	Dŵr	Dŵr gwastraff
Totex - cyfanswm 2015-20 (£ miliwn)	1,234.2	1,358.1
Cost gyfartalog wedi ei phwysoli o gyfalaf a ganiateir (%)	3.60%	3.60%
Refeniw cyfanwerthol a ganiateir 2015-20 (£miliwn)	1,321.1	1,749.0
Manwerthol	Preswyl	Dibreswyl
Lwfans cost - cyfanswm 2015-20 (£ miliwn)	13.9	
Gorswm (%)	1.00%	1.36%
Refeniw manwerthol a ganiateir (£miliwn)	14.8	1.7


Nodyn: Effeithir ar ffigurau cyfanwerthol ym mhrisiau 2012-13 fel refeniw gan chwyddiant a ffigurau manwerthol mewn prisiau nominal gan na effeithir ar refeniw gan chwyddiant - mae hyn yn gyson drwy gydol y penderfyniad terfynol hwn oni bai y nodir yn wahanol.

Ystodau RoRE – enwebai

Mae Dŵr Cymru wedi amcangyfrif yr ystod o enillion ar ecwiti rheoleiddiol (RoRE) y gallai eu hennill yn dibynnu ar ei berfformiad a'r ffactorau risg allanol dros y cyfnod rheolaeth prisiau. Mae'r ystod RoRE yn adlewyrchu barn y cwmni ac mae wedi'i seilio ar gwmni effeithlon sydd â strwythur cyfalaf tybiannol². Rydym wedi nodi effaith y RoRE ar wahân ar gyfer cymhelliannau cyflawni canlyniadau (ODlau), perfformiad cyfanswm gwariant (totex), cyllido a'r mecanwaith cymhelliant gwasanaeth (SIM). Nodwn y gall enillion gwirioneddol Dŵr Cymru fod yn wahanol i enillion tybiannol oherwydd gwahaniaethau rhwng strwythur cyfalaf tybiannol a gwirioneddol a gwir gost dyled a lefel effeithlonrwydd cost o gymharu â'r totex a ganiateir a chost gwasanaethu gyfartalog manwerthol preswyl.

² Y strwythur cyfalaf tybiannol yw'r strwythur cyfalaf sy'n adlewyrchu tybiaeth Ofwat o lefel briodol y geriad i'w ddefnyddio mewn penderfynu cost gyfartalog cyfalaf wedi'i phwysoli (WACC) a ganiateir.

Ffigur A1.2 Ystod RoRE



Ffynhonnell: Seilir ein amcangyfrifiad ar wybodaeth gan Dŵr Cymru

Nodyn: Seilir y rhifau a gyflwynir ar galibreiddiad yr ODIau yn erbyn dewislen dybiedig o ffactor rhannu o 50%

Ein cyfrifiad o gymarebau cyllidadwyedd tybiannol

Mae dyletswydd statudol ar Ofwat i sicrhau bod cwmni yn gallu cyllido'r gwaith o gyflawni ei swyddogaethau'n gywir. Rydym yn dehongli'r ddyletswydd gyllido hon fel un sy'n ei gwneud hi'n ofynnol ein bod yn sicrhau bod cwmni effeithlon gyda strwythur cyfalaf tybiannol yn gallu cyllido ei swyddogaethau. Dewis i'r cwmni yw ei strwythur cyfalaf gwirioneddol ac mae'n cario'r risg sy'n gysylltiedig â'i ddewisiadau. Tybir bod cwmni effeithlon yn gallu cyflawni ei gynlluniau yn seiliedig ar y lwfans gwariant yn ein penderfyniad terfynol.

Cyn ein penderfyniad drafft ceisiodd sicrwydd ychwanegol gan Dŵr Cymru fod ei gynllun yn un y gellid ei ariannu ar sail strwythur tybiannol a gwirioneddol. Rhoddodd y cwmni y sicrwydd hwn.

Caiff y cymarebau ariannol tybiannol, y seilir y penderfyniad terfynol hwn arnynt ac sy'n rhoi ystyriaeth i'n hymyriadau, eu nodi yn adran A6 ac fe'u crynhoir isod ar sail cyfartaledd 5-mllynedd.

Rydym wedi asesu'r penderfyniad terfynol hwn ar gyfer Dŵr Cymru i fod yn un y gellid ei ariannu ar sail dybiannol.

Cymarebau ariannol ar gyfer cwmni tybiannol	Cyfrifiad Ofwat (cyfartaledd 2015-20)
Gwarant llog arian parod (ICR)	2.54
Cymhareb gwarant llog arian parod wedi'i addasu (ACICR)	1.59
Cronfeydd o weithrediadau (FFO)/dyled	6.97%
Llif arian/dyled a gedwir	4.41%
Geriad	62.52%
Gwarant difidend (elw ar ôl talu treth/difidendau)	0.19
Ecwiti rheolaethol/enillion rheoledig ar gyfer y cwmni rheoledig	17.95
RCV/enillion cyn llog, trethi, dibrisiad ac amorteiddiad (EBITDA)	14.13

Crynodeb o'r ymyriadau

Wrth wneud ein penderfyniad terfynol rydym wedi ymyrryd yng nghynllun busnes y cwmni, pan fo angen, er mwyn diogelu buddiannau cwsmeriaid. Wrth wneud hyn rydym wedi rhoi ystyriaeth ofalus i'r sylwadau yr ydym wedi eu derbyn ar y penderfyniad drafft ac wedi ystyried y wybodaeth fwyaf diweddar sydd ar gael pan fo hynny'n briodol. Rydym yn crynhoi'r ymyriadau mwyaf arwyddocaol yn y tabl isod. O dan ein hegwyddor 'cywerthedd triniaeth' gall y cwmni fod yn amodol i'r un ystod o ymyriadau â chwmnïau a dderbyniodd eu penderfyniad drafft ym mis Awst.

Canlyniadau	Costau cyfanwerthol
<ul style="list-style-type: none">• Cap: Rydym wedi rhoi cap a cholera cyffredinol o +/-2% o RoRE ar ODIau.• Asesiad cymharol: Rydym wedi diweddarau ein hasesiad cymharol ac ymyriadau cysylltiedig ar ymrwymadau perfformiad, bandiau ffiniol, coleri a chapiau. Rydym yn parhau i ymyrryd er mwyn gosod lefel perfformiad ymrwymedig ar gyfer cyflawni ymyriadau i gyflawni perfformiad chwarterel uwch. Gwnaethom hefyd gynnwys gwobr ariannol cwmni-benodol ar gyfer cymhelliant amhariad i gyflenwad. Mae'r ymyriadau hyn yn gyson â 'chywerthedd triniaeth'.• Asesiad cwmni-benodol: Gwnaethom addasu cosbau'r cwmni, neu gyflwyno cosb, ar gyfer tri ymrwymiad perfformiad, ond hefyd dderbyn gwobr a gynigwyd ar gyfer un. Gwnaethom gynnwys asedau a drosglwyddwyd ar gyfer dau ymrwymiad dŵr gwastraff.	<ul style="list-style-type: none">• Cynigodd y cwmni totex dŵr cyfanwerthol o £1,240 miliwn yn ei gynllun, sydd £4 miliwn yn uwch na throthwy ein penderfyniad terfynol o £1,236 miliwn. Roedd ei totex dŵr gwastraff arfaethedig o £1,329 miliwn £41 miliwn yn is na'n throthwy o £1,370 miliwn.• Nid yw'r symiau hyn wedi newid o'r penderfyniad drafft.

Manwerthol	Cysoni perfformiad 2010-15
<ul style="list-style-type: none"> Ni wnaethom dderbyn addasiad pwysedd pris mewnbwn a gynigiwyd gan y cwmni ar gyfer 2013-15, ond gwnaethom ddefnyddio sail pris 2013-14 ar gyfer gosod rheolaethau prisiau manwerthol preswyl a dibreswyl. Ar sail tystiolaeth ychwanegol a gyflwynwyd gan y cwmni, rydym wedi addasu cost fanwerthol preswyl i wasanaethu y cwmni er mwyn adlewyrchu'r costau rheoli dyled y mae'r cwmni'n eu hwynebu. Fodd bynnag, gwnaethon leihau gwerth yr addasiad a gynigiwyd gan £0.3 miliwn. Gwnaethom dderbyn y costau ail-ddyrannu a gynigiwyd gan y cwmni rhwng mesuryddion a di-fesuryddion a phreswyl a dibreswyl, ond nid ei ail-ddyraniad costau a gorsymiau o fewn manwerthu dibreswyl. Gosodom her effeithlonrwydd i gostau manwerthu dibreswyl. 	<ul style="list-style-type: none"> Gwnaethom newid addasiadau refeniw arfaethedig y cwmni gan £0.4 miliwn (o blaid y cwmni) a'i addasiad gwerth cyfalaf rheoleiddiol (RCV) arfaethedig gan £23.9 miliwm (o blaid cwsmeriaid) Gosodom ddiffyg gwasanaethadwyedd gwerth £12.6 miliwn i ddŵr cyfanwerthol ar gyfer amhariadau nas cynlluniwyd i gyflenwad.
Risg a gwobr	Cyllidadwyedd a fforddiadwyedd
<ul style="list-style-type: none"> Ar sail ar y dystiolaeth marchnad ddiweddaraf ar gyfer cost dyled newydd rydym wedi lleihau enillion a ganiateir i'r cwmni o 3.7% i 3.6%. Mae'r ymyriad hwn yn gyson â 'chwywerthedd triniaeth'. 	<ul style="list-style-type: none"> Ni wnaethom ymyrryd yn y maes hwn, ond gwnaethom gywiro ddau wall modelu oedd wedi eu cynnwys yn y penderfyniad drafft.



Ofwat
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham B5 4UA

Ffôn: 0121 644 7500
Ffacs: 0121 644 7533
Gwefan: www.ofwat.gov.uk
E-bost: mailbox@ofwat.gsi.gov.uk

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys isafswm o 75% o bapur gwastraff ôl-ddefnyddiwr wedi ei ddad-incio.
Rhagfyr 2014

© Hawlfraint y Goron 2014

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi ei drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai y nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost at psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle yr ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar ein gwefan yn www.ofwat.gov.uk.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn mailbox@ofwat.gsi.gov.uk.

